**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 29 Mawrth 2016

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Y Cyng. Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad
Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Liz Grieve - Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol

**Awdur yr Adroddiad:** Heidi Gray - Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol

**Teitl:** Adroddiad Perfformiad Y Cynllun Corfforaethol Chwarter 3 - 2015/16

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae’r papur yn cyflwyno diweddariad ar drosglwyddo Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 3 o 2015/16.

1.2 Mae Atodiad 1 yn darparu’r Crynodebau Gweithredol ar gyfer chwarter 3, sy'n cynnwys cyflawniadau yn chwarter 3.

1.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchir gan System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y Cyngor fel ar ddiwedd chwarter 3, 2015-16 wrth gyflwyno canlyniadau’r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a’r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd o wasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o graffu manwl i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn hwyluso darpariaeth y Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Crynodeb Gweithredol (Atodiad 1) yn cynnwys dadansoddiad o eithriadau allweddol, ac awgrymir y rhoddir sylw iddynt.

4.2 Mae Chwarter 3, Adroddiad Perfformiad 2015-16 (Atodiad 2) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2012-17 ac yn rhoi asesiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.

4.3 Mae'r eithriadau hyn wedi cael eu hamlygu fel a ganlyn: Caiff nifer o ddangosyddion a mesurau eu hamlygu fel rhai 'Coch' yn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu y cânt eu hadnabod fel rhai sy'n cael 'Blaenoriaeth i Wella' neu lle mae problem gyda'r data sydd angen ei godi.

4.4 Mae ymatebion dangosydd Arolwg Trigolion 2015 sy'n llywio canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol wedi cael eu cynnwys. A report is being compiled on the full results.

4.5 Mae Bwrdd Gwella'r Cynllun Corfforaethol wedi cael ei sefydlu i oruchwylio gwaith cwblhau'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod 18 mis diwethaf y weinyddiaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae'r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y pum mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o'i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Mae'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r adroddiad hwn yn dod gan wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi cael eu trafod a'u dosbarthu er mwyn galluogi i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gymryd unrhyw gamau cywirol sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r adroddiad hwn ar gyfer Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a’r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai’r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl archwilio mewn perthynas â monitro a rheoli perfformiad.